**Cofnodion Cyfrifiadurol a Meddygol** Mae'r cyfrifiadur yn cynnal gwybodaeth am fanylion meddygol cleifion. Gallwch gael golwg ar eich manylion trwy drefniant ymlaen llaw. Rydym wedi cofrestru o dan y Ddeddf Amddiffyn Data ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Cwynion ac Awgrymiadau** Croesawn adborth am y Feddygfa a'r gwasanaethau a ddarperir. Cofiwch ddweud os byddwch yn cael unrhyw anhawster. Gweithredir gweithdrefn gwynion 'fewnol'. Os bydd gennych unrhyw broblemau neu gwynion mewn cysylltiad â'r Feddygfa, gallwch naill ai ysgrifennu neu eu trafod gyda'r Rheolwr Gweinyddol, a fydd yn eu hymchwilio'n llawn.

**Gweinyddiaeth Gyffredinol** Hysbyswch y Feddygfa am unrhyw newid yn eich manylion gynted â phosibl.

**Amser Datblygu'r Feddygfa** Gyda chefnogaeth Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam, mae'r Feddygfa'n gallu cau un pnawn y mis ar gyfer hyfforddiant. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw am y dyddiadau yn y Ganolfan Iechyd.

**Myfyrwyr** O dro i dro, rydym yn caniatáu i feddygon dan hyfforddiant weithio yn y Feddygfa i gael profiad o feddygaeth gyffredinol. Hysbysir chi pan fyddant yn bresennol, ac os na fyddwch yn dymuno eu gweld, hysbyswch ni os gwelwch yn dda.

**CYFRINACHEDD** Mae pob meddyg a'r holl staff, parhaol a dros dro, yn arwyddo i gydymffurfio â'r cytundeb cyfrinachedd. Ni ddatgelir gwybodaeth cleifion a gynhelir yn y feddygfa i bobl nac asiantaethau heb awdurdod.

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

| | |
|---|---|
| Trefnu Cludiant (Di-frys) Gwasanaeth Ambiwlans | 0845 6076181 |
| Ysbyty'r Waun | 01691 772430 |
| Llinell Gymorth Ddeintyddol | 07000 780377 |
| Ysbyty Gobowen | 01691 404000 |
| Galw Iechyd Cymru | 0845 4647 |
| Nyrsys Ardal Plas Madog | 01978 812163 |
| Heddlu (Saesneg) | 0845 6071002 |
| Heddlu (Cymraeg) | 0845 6071001 |
| Nyrsys Ardal Rhos | 01978 846776 |
| Ymwelwyr Iechyd Rhos | 01978 840151 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam | 01978 346500 |
| Ysbyty Maelor Wrecsam | 01978 291100 |
| Ysbyty'r Iâl | 01978 262462 |

SJ/6-07-07/BILLWRE/AMRYW/2007/practice leaflet2.w

# Drs Saul, Botham & Kendall's Practice



Y Ganolfan Iechyd, Rhodfa Beech
Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1AA
Ffôn: 01978 845955 Ffacs: 01978 846757
www.rhosdoctors.co.uk
Argyfwng ShropDoc 'Allan o Oriau' 08450 20 21 31

**Oriau agor y feddygfa: Llun – Gwener 8.30 am - 6 pm (cau i ginio 1.00pm – 1.30pm)**

Mae gennym feddygfa 'troi fyny ac aros' bob dydd rhwng 9-10am. Fodd bynnag, ni allwn warantu pa feddyg fyddwch chi'n ei weld a gall fod yn brysur. Mae apwyntiadau ar gael yn y bore a'r prynhawn gyda meddygon arbennig fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 9.00-11.30am | 3.00-5.30pm |
| Mawrth | 9.00-10.00am | 3.00-5.10pm |
| Mercher | 9.00-11.30am | 3.00-5.10pm |
| Iau | 8.35-11.00am | 3.00-5.10pm |
| Gwener | 8.35-11.00am | 3.00-5.30pm |

**Dr Kendall** fel arfer yn gweithio dydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener (trwy'r dydd)

**Dr Botham** fel arfer yn gweithio dydd Llun (trwy'r dydd), dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau (bore)

**Dr Saul** fel arfer yn gweithio dydd Mawrth a dydd Gwener (trwy'r dydd)

Gan fod Dr Saul a Dr Botham yn gweithio'n rhan amser, ni ellir gwarantu y byddwch yn cael apwyntiad gyda meddyg o'ch dewis chi.

Nyrs y Feddygfa – Gwelir cleifion trwy apwyntiad yn unig
Llun 8.30am-1pm 2.00-4.30pm
Mer 8.30am-1pm 1.30-4.30pm
Gwen 8.30am-1pm*

**Cynorthwy-wyr Gofal Iechyd –** Dyddiau ac amser yn amrywio

**Y Feddygfa**

Rydym yn feddygfa fechan gyfeillgar gyda thri meddyg yn gweithio mewn Canolfan Iechyd fodern i'r de o Wrecsam. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ac yn annog cleifion i gyfrannu a bod yn hysbys am eu gofal iechyd.

**Staff y Feddygfa**

**Dr Peter Saul MB ChB DRCOG DCH MRCGP**

Cymhwysodd ym Mhrifysgol Lerpwl ym 1977. Mae ganddo gymwysterau ôl-radd mewn Meddygaeth Gyffredinol, Iechyd Plant ac Obstetreg a Gynaecoleg.

**Dr Lorraine Botham LRCP MRCS DRCOG**

Wedi cymhwyso yn Ysgol Feddygol, Ysbyty Middlesex yn Llundain ym 1985. Mae ganddi gymwysterau ôl-radd mewn Obstetreg a Gynaecoleg a Chynllunio Teulu.

**Dr Nigel Kendall MB ChB MRCGP**

Wedi cymhwyso ym Mhrifysgol Sheffield ym 1988. Mae ganddo gymwysterau ôl-radd mewn Meddygaeth Gyffredinol.

**Prif Nyrs Norma Brown RGN,** Nyrs y Feddygfa, hynod gymwys a phrofiadol. Mae'n cynnig cefnogaeth glinigol ar gyfer cyflyrau fel diabetes, clefyd y galon, asthma a chlefyd yr ysgyfaint cronig, yn ogystal â chwistrellu clustiau, cyngor ysmygu a diet, brechlyn teithio, profion taeniad, rhwymynnau ar gyfer briwiau a chyngor ar fân salwch.

**Diane Marshall a Coleen Coull** yn Gynorthwy-wyr Gofal Iechyd hyfforddedig. Maent yn cymryd pwysau gwaed, gwaed, wrin a phrawf clyw ac ECG.

**Kathryn Hughes** yw'r Prif Groesawydd. Y Croesawyr eraill yw **Kathy Jones, Amanda Johns a Dawn Austin**.

**Maria Hunt** yw'r Rheolwr Gweinyddol a **Christine Howarth** yw'r Ysgrifenyddes Feddygol.

**Y Ganolfan Iechyd** Mae digon o le i barcio ac rydym ger llwybr bysiau. Mae mynediad i'r anabl yn ardderchog. Rydym yn rhannu'r Ganolfan Iechyd gyda Meddygfa Dr Ahmed ac aelodau o'r Tîm Gofal Iechyd Cychwynnol. Mae'r rhain yn cynnwys Nyrsys Ardal, Ymwelwyr Iechyd, Bydwragedd a Chiropodyddion.

**Ardal y Feddygfa** Mae'r Feddygfa'n cynnwys ardaloedd Rhos, Penycae, Ponciau, Johnstown a rhan o Riwabon.

**Ymweliadau â'r Cartref** Ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r cartref neu'n rhy sâl i ddod i'r feddygfa. Os yn bosibl, ffoniwch cyn 10.30am os byddwch angen ymweliad â'r cartref. Gofynnir am rif ffôn cyswllt gan y gall y meddyg eich ffonio cyn ymweld.

**Cyngor dros y ffôn.** Os byddwch yn dymuno siarad gyda meddyg neu nyrs am gyngor, gallwch ffonio'r feddygfa. Bydd staff y Dderbynfa'n cymryd eich enw, rhif ffôn a disgrifiad byr o'r broblem a throsglwyddo i'r clinigydd perthnasol, a fydd yn ceisio dychwelyd eich galwad gynted â phosibl, fel arfer ar ddiwedd clinig. Rydym yn gyndyn i amharu ar y clinigydd oni bai ei fod yn argyfwng.

**Argyfyngau** Os bydd gan glaf symptomau sy'n awgrymu trawiad y galon neu argyfwng cardiaidd arall, gall y meddyg ffonio ambiwlans i fynd â'r claf i'r ysbyty yn hytrach nag ymweld.

**Y tu allan i oriau'r feddygfa (6.00pm - 8.30am** ac ar benwythnosau a gŵyl banc. Darperir goruchwyliaeth frys gan feddygon gwasanaeth allan o oriau ShropDoc. Ffoniwch y feddygfa i gael neges wedi'i gofnodi a fydd yn rhoi'r rhif ffôn cywir i chi. Efallai y rhoddir cyngor dros y ffôn i chi neu gofynnir i chi fynd i'r ganolfan "allan o oriau". Cynhelir ymweliad â'r cartref ar gyfer argyfwng meddygol yn unig.

**Canlyniadau Prawf** Ffoniwch y feddygfa ar ôl 2pm ar gyfer canlyniadau prawf. Bydd y meddyg teulu neu'r nyrs yn dweud faint mae'n arfer gymryd i ganlyniadau ddychwelyd. Mae'r rhan fwyaf o brofion gwaed ac wrin yn cymryd llai na 72 awr i ddychwelyd. Mae canlyniadau pelydr-x yn cymryd o leiaf pythefnos a phrofion taeniad 4-8 wythnos.

**Ail Bresgripsiwn** Gofynnir am ail-bresgripsiwn trwy ddefnyddio'r ffurflen a gyflwynir gyda phob ail-bresgripsiwn. Gallwch ei roi i'r fferyllydd a gwnaiff ei brosesu neu gallwch ei roi i'r feddygfa neu ei bostio. Caniatewch 48 awr os gwelwch yn dda i brosesu ail-bresgripsiynau arferol.

**NI DDERBYNNIR CEISIADAU DROS Y FFÔN**

Gofynnwch am gopi o'r Polisi Ail-Bresgripsiwn os byddwch angen manylion pellach.

**Gwasanaethau Eraill** Rydym yn cynnig amrywiaeth o glinigau a gwasanaethau trwy apwyntiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

Clinig Cyn-geni (gyda'r Fydwraig Cymuned)
Clinig Ôl-eni Mam a'i Phlentyn
Clinig Babanod a Brechu (gyda'r Ymwelydd Iechyd)
Ffisiotherapi mewnol (dydd Mawrth a dydd Gwener)
Cynllunio Teulu
Taeniad Ceg y Groth
Mân Lawfeddygaeth
Monitro Warffarin
Brechlyn y Ffliw
Brechlynnau Teithio (gan gynnwys y Dwymyn Felen)
Profion Meddygol Preifat (gan gynnwys Prawf Meddygol Hedfan)